Dŵr Cymru
Welsh Water

# Y Broses Ymgeisio am y Cysylltiad Carthffos

Nodiadau Cyfarwyddyd

1

### Gofyn am Becyn Cais

Gallwch gael pecyn cais trwy lenwi ein ffurflen Mynegi Diddordeb ar ein gwefan (dwrcymru.com – dewiswch 'Gwasanaethau Datblygu').

2

### Cyflwyno'r Cais

Rhaid cyflwyno'r gwaith papur a'r ddogfennaeth ategol i'r Gwasanaethau Datblygu, ynghyd â'r ffioedd perthnasol. Dylid nodi, o dan Adran 106 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, rhaid i chi roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd o'ch bwriad i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Wedyn bydd Swyddog Rheoli Datblygiad yn asesu'r cais. Gall y Swyddog gysylltu â chi os oes angen rhagor o fanylion.

3

### Penderfynu ar y Cais

Bydd y Gwasanaethau Datblygu naill ai'n gwrthod (gyda rhesymau) neu'n cydsynio i'r cais am gysylltiad. Bydd y Cwsmer a'r Contractwr yn cael copi o'r hysbysiad yma. Bydd llythyr caniatâd yn cynnwys manylion unrhyw safle hysbys risgiau penodol rydyn ni'n ymwybodol ohonynt o ran y garthffos.

4

### Cwblhau'r Broses o Asedau i Asesau

O'i gymeradwyo, rhaid i'r contractwr a enwebir gysylltu â'n Tîm Gweithrediadau i baratoi Cais am Fynediad at Ased a all gynnwys Asesiad Risg a/neu Ddatganiad o'r Dull yn ogystal â thystiolaeth o'r manylion Iechyd a Diogelwch angenrheidiol a bennir ar y ffurflen AF02. Dylai'r broses yma fod yn gyson hefyd â gofynion eraill perthnasol o ran caniatâd sydd y tu hwn i'n rheolaeth ni, fel Hysbysiadau Agor Priffyrdd, caniatâd perchnogion tir trydydd parti ac ati. Bydd y ffurflen Mynediad i Asedau yn cynnig rhagor o wybodaeth yn hyn o beth a manylion cysylltu perthnasol.

5

### Hysbysu'r Gwasanaethau Datblygu

Rhaid i'r contractwr gysylltu â'r Gwasanaethau Datblygu o leiaf 48 awr cyn cyflawni gwaith i gysylltu â'r garthffos i drefnu archwiliad o'r gwaith. Wedyn bydd Rheolwr Safle yn ymweld â'r safle i archwilio'r cysylltiad. Dylid nodi y codir tâl am unrhyw archwiliadau aflwyddiannus neu archwiliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol ar sail y gost.

## Cyflwyno'ch cais

Dylid nodi, o dan Adran 106 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, rhaid i chi roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd o'ch bwriad i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Rhaid felly i chi gwblhau'r manylion canlynol a'u cyflwyno er mwyn i ni gydsynio iddynt. Ni ddylid cyflawni unrhyw waith nes bod eich llythyr Caniatâd wedi dod i law.

Rhaid i'ch cais gynnwys:

- Ffurflen 'CYNNIG CYSYLLTIAD DRAENIO O DAN ADRAN 106 O DDEDDF Y DIWYDIANT DWR 1991' gyflawn
- Ffi archwilio yn daladwy i Dŵr Cymru Welsh Water
- 1 x dyfyniad o'r cofnod o garthffosydd cyhoeddus sy'n dangos y pwynt cysylltu arfaethedig a llwybr y draen preifat D.S. gellir dangos safleoedd â sawl pwynt cysylltu;
- 1 x llun manwl o'r dull a gynigir i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus;
- Copi llawn o'ch ffurflen gais a'ch caniatâd cynllunio, gan gynnwys cadarnhad ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod unrhyw amodau perthnasol o ran draenio wedi cael eu cyflawni neu eu bodloni (Os yw'n ddatblygiad a ganiateir neu os nad oes angen caniatâd cynllunio/rheoliadau adeiladu, nodwch hynny)
- Cadarnhad bod Cytundeb Mabwysiadu S104 yn ei le (lle bo hynny'n berthnasol)
- Cadarnhad bod caniatâd SAB yn bodoli ar gyfer cysylltiad dŵr, lle bo hynny'n berthnasol yng Nghymru
- Manylion eich Contractwr ag Asesiad SSIP Iechyd a Diogelwch sy'n cyflawni'r gwaith cysylltu

Sicrhewch fod yr holl ddogfennau yn cael eu cyflwyno gyda'ch cais. Os nad ydych chi'n darparu'r holl wybodaeth a geisir, bydd hynny'n achosi oedi gyda'ch cais nes bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. Rhaid i chi BEIDIO â bwrw ymlaen ag unrhyw gysylltiad nes eich bod chi wedi cychwyn cytundeb mabwysiadu dan Adran 104 (os yw'n berthnasol), yn ogystal â chael caniatâd SAB (os yw'n berthnasol), ac wedi cael caniatâd Adran 106 i gludo llif o'r datblygiad, yn ogystal â chydsyniad gan Weithrediadau Gwastraff DCWW o dan y drefn Cyrchu Asedau (mae rhagor o fanylion isod).

## A oes angen Cytundeb Mabwysiadu A104?

Dylid nodi, os yw eich cysylltiad â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus naill ai ar ffurf draen ochrol (h.y. draen sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin eiddo cysylltiedig) neu trwy garthfos newydd (h.y. un sy'n gwasanaethu mwy na un eiddo), mae hi bellach yn orfodol eich bod chi'n cychwyn Cytundeb Mabwysiadu Adran 104 (Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Rhaid i ddyluniad y garthffos a'r draen ochrol gydymffurfio hefyd â Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer Carthffosydd Budr Disgyrchiant a Draeniau Ochrol. Mewn achosion lle mae Cysylltiad â Charthffos yn cynnwys draen ochrol neu garthfos, ni ellir rhoi caniatâd i Gysylltu â Charthffos nes bod y cytundeb mabwysiadu yn ei le.

Dylid nodi na fyddwn ni'n cychwyn cytundeb mabwysiadu carthffos ar gyfer unrhyw garthffos neu ddraen ochrol a adeiladwyd cyn i'r cytundeb mabwysiadu gael ei sefydlu.

Dylid nodi, yn sgil cyflwyno Atodlen 3 o'r Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010 yng Nghymru, y SAB yw'r corff cymeradwyo ar gyfer dyluniadau SuDS erbyn hyn, ac yn y mwyafrif o achosion, hi hefyd fydd y corff mabwysiadu a chynnal ar gyfer y rhwydwaith dŵr wyneb newydd. Mae hyn yn cynnwys y nodweddion SuDS a'r rhwydweithiau draenio cysylltiedig yr oeddem yn arfer eu mabwysiadu'n draddodiadol. Gellir cael rhagor o fanylion o ran a fydd angen cytundeb mabwysiadu Adran 104 arnoch, a'r broses fabwysiadu gan dwrcymru.com (gan ddewis 'Gwasanaethau Datblygu') neu trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Datblygu ar **0800 917 2652.**

## Eich Cysylltiad â'r Garthffos Gyhoeddus (Dull a Lleoliad)

Mae'r pecyn cais yn cynnwys cynllun dull cysylltu. Mae'r dull cysylltu'n cyfeirio at sut rydych chi'n bwriadu cysylltu eich draen/carthffos â'r cyfarpar carthffosiaeth gyhoeddus sydd eisoes yn bresennol. Rydyn ni'n gofyn naill ai am gysylltiad â siambr twll archwilio neu trwy ffurfio cydiad "y". Ni chaniateir cysylltiadau bwa pontio, heblaw o dan amodau neilltuol.

Hwyrach y bydd y dull cysylltu wedi cael cydsyniad eisoes yn rhan o'ch cytundeb adran 104. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, dylid cyflwyno'r cynllun o ran manylion y twll archwilio eto i'w ddilysu.

Yn ogystal â manylion y dull o gysylltu, mae angen manylion y pwynt cysylltu â'r garthffos gyhoeddus hefyd. Mae hi'n bwysig bod union leoliad y garthffos gyhoeddus yn cael ei glustnodi a'i fod yn gyson â chynllun y dull o gysylltu, am fod angen y wybodaeth yma i gydategu'ch cais. Os oes unrhyw amheuaeth am safle/lleoliad y garthffos gyhoeddus, dylech gysylltu â'n Tîm Gweithrediadau Carthffosiaeth ar 0800 085 3968. Dylid nodi y gallai gymryd hyd at 28 diwrnod gwaith i ymweld â'r safle a chadarnhau union leoliad y garthffos gyhoeddus.

Rhaid (i chi) hysbysu eich contractwr am y manylion a'r dull o greu'r cysylltiad ffisegol â'r garthfos gyhoeddus, a rhaid iddynt gael Caniatâd Cyrchu Asedau a rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i ni am eu bwriad i greu cysylltiad newydd â'r garthffos gyhoeddus. I'n hysbysu ni am y 48 awr o rybudd, rhaid i'r contractwr cymeradwy gysylltu â'n Dyranwyr Gwaith ar **0800 917 2652.**

## Taliadau Seilwaith

Dylid nodi, adeg cwblhau unrhyw gysylltiad newydd â'r garthffos, codir anfoneb am ffi seilwaith fesul aelwyd. Mae manylion y ffi yn Rhestr Taliadau ein Gwasanaethau Datblygu sydd ar gael ar ein gwefan. Os yw eich datblygiad yn un sy'n cael ei adeiladu o'r newydd, caiff y ffi yma ei hymgorffori i'r taliadau seilwaith sy'n daladwy adeg creu'r cysylltiad dŵr yfadwy newydd. Os yw eich cysylltiad yn sgil datgysylltu tanc septig, carthbwll, rhaid i chi ddarparu'r cyfeirnod bilio ar Restr Gyfeirio'r Ymgeisydd sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon.

## Contractwyr Iechyd a Diogelwch ag Asesiad SSIP

Rhaid i unrhyw waith a gyflawnir ar y rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus gymryd pob math o beryglon i ystyriaeth, gan gynnwys ymhlith eraill, mannau cyfyng, gweithio ar ddyfnder a phresenoldeb posibl nwyon gwenwynig / ffrwydrol. Felly mae angen i Ddŵr Cymru Welsh Water fod yn fodlon bod eich contractwr cymeradwy sy'n cyflawni'r gwaith yn hyfedr a bod ganddynt y cymwysterau priodol mewn perthynas â'r Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch gyfredol.

Yn hanesyddol, rydyn ni wedi cynnal ein cynllun Contractwyr Iechyd a Diogelwch achrededig ein hunain, ond mae hynny wedi dod i ben ac erbyn hyn rydyn ni'n defnyddio Cynlluniau Asesu Iechyd a Diogelwch a ddefnyddir yn ehangach ar draws y byd Diwydiant. Mae nifer o gynlluniau Achredu Iechyd a Diogelwch Diwydiannol ar gael sydd wedi cofrestru gyda'r Cynlluniau Diogelwch wrth Gaffael (SSIP) a fydd yn bodloni ein gofynion. Mae'r Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch yn cefnogi SSIP ac mae'n gweithredu fel sefydliad ymbarél i hwyluso cydnabyddiaeth ddwy ffordd rhwng cynlluniau cyn cymhwyso am iechyd a diogelwch lle bynnag y bo'n ymarferol gwneud hynny. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan SSIP: ssip.org.uk

Byddwn ni'n dilysu statws cyn cymhwyso eich contractwr dethol gyda'r sefydliad cymeradwyo yn ystod y broses ymgeisio.

## Y Broses ar gyfer Cyrchu Asedau

Mae copi o'r Ffurflen Cyrchu Asedau AF02 yn gynwysedig gyda'r cais yma ac mae'n cynnwys manylion y wybodaeth y mae angen ei chyflwyno i ddiogelu caniatâd i Gyrchu Asedau. Gofynnir i gontractwyr ddarparu cyfeirnod eu Caniatâd i Gyrchu Asedau wrth roi 48 awr o rybudd i ni cyn creu'r cysylltiad.

Ar ddiwrnod y gwaith cynlluniedig, rhaid i'r contractwr gysylltu â'n Canolfan Rheoli Gweithredol (02920 740256) cyn ac wrth gwblhau eu gwaith / cyrchu ein rhwydwaith. Os oes problem gweithredol o fewn y rhwydwaith carthfosiaeth rydym yn ymwybodol ohoni yn ystod cyfnod y gwaith cynlluniedig, byddwn ni'n dweud wrth y contractwr i roi'r gorau i'r gwaith a gadael y rhwydwaith carthffosiaeth.

# Y Cefndir Deddfwriaethol

**Mae'r nodyn canllaw hwn yn cyfeirio at rannau o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, sy'n llywodraethu'r broses cysylltu â charthfosydd, gan gynnwys Adran 104 ac A106, fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010:**

## Adran 104 - Cytundeb i fabwysiadu carthffos, draen neu weithfeydd gwaredu carthion yn y dyfodol

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â mabwysiadu pob carthffos a draen ochrol newydd a adeiladir ar draws ardal weithredol Dŵr Cymru Welsh Water. Yn hanesyddol, proses wirfoddol oedd y broses o fabwysiadu carthffosydd, a ni fyddai'n gyfrifol am eu cynnal ar ddiwedd y broses. Yn sgil newidiadau gwirfoddol a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2021 (gweler A 106B isod) mae hi bellach yn orfodol cychwyn cytundeb mabwysiadu ar gyfer pob carthffos a draen ochrol newydd y bwriedir iddynt gysylltu â'r rhwydwaith o garthfosydd cyhoeddus. Mae'r newidiadau'n mynd ymhellach ac yn delio hefyd â safonau dylunio ac adeiladu'r carthffosydd a'r draeniau ochrol. Mae rhagor o fanylion ac arweiniad ar wefan Llywodraeth Cymru cymru.gov.uk trwy chwilio am - Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer Carthffosydd Budr Disgyrchiant a Draeniau Ochrol.

## Adran 106 - Yr Hawl i Gysylltu â charthfosydd cyhoeddus

Rhaid i unrhyw gwsmer sydd am gysylltu â'r rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus am y tro cyntaf gydymffurfio â'r broses o ymgeisio a chael caniatâd bob tro. Defnyddir y term Cysylltu er nad yw cysylltiadau'n uniongyrchol â'r rhwydwaith o garthfosydd cyhoeddus cyfredol bob tro, gallant fod yn anuniongyrchol trwy rwydwaith preifat cyfredol.

## Adran 106A - Draenio cynaliadwy

Dŵr, trwy weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn dangos y gall ymgeisydd wneud cais i gysylltu â llif dŵr wyneb ar yr amod bod ganddynt ganiatâd SAB sy'n cadarnhau y caiff cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus ei greu.

## Adran 106B - Y gofyniad i gychwynagreement cytundeb cyn Adeiladu

I bob pwrpas, trwy gyflwyno'r ddarpariaeth hon i Ddeddf y Diwydiant Dŵr, yn sgil gweithredu Adran 42 O Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, cyflwynwyd mabwysiadu gorfodol a safonau ar gyfer pob carthffos a draen ochrol newydd y bwriedir eu cysylltu â'r rhwydwaith cyfredol o garthffosydd.

## Adran 107 - Hawl ymgymerwyr carthffosiaeth i gyflawni gwaith cysylltu â charthffosydd

Cyn pen 14 diwrnod ar ôl i gais Adran 106 ddod i law, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cadw'r hawl i hysbysu taw ni fydd yn cyflawni'r cysylltiad arfaethedig. Bydd y gost o greu'r cysylltiad yn dod o boced yr ymgeisydd, neu fel arall, os chaiff y cysylltiad ei wneud gan y person hwnnw ar ôl derbyn hysbysiad, gallent fod yn agored i gael eu herlyn o dan Adran 107 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

## Contact Us:

We're always here to help...

**Call**
0000 0000 0000

**Email**
XXXXXXXXXXX@dwrcymru.com

**Visit**
dwrcymru.com

@dwrcymru

/dwrcymruwelshwater